Dim ond gêm yw hi? Cam-drin domestig, digwyddiadau chwaraeon ac alcohol

Cyflwyniad

Yng Nghymru a Lloegr, mae bron i 20,000 o fenywod yr wythnos yn profi o leiaf un achos o gam-drin domestig.[2] Mae ymchwil yn dangos bod adroddiadau am gam-drin domestig yn gallu cynyddu yn ystod cyfnodau pan fydd digwyddiadau chwaraeon mawr yn cael eu cynnal, efallai gymaint â 40%.[2] Does dim tystiolaeth o gyswllt achosol uniongyrchol rhwng cam-drin domestig ac yfed alcohol – mae'r rhai sy'n cam-drin yn defnyddio trais gydag alcohol a hebddo.[3] Er hynny, mae'n hysbys bod yfed yn cynyddu amlder a difrifoldeb yr achosion.[4]

Disgwylir y bydd cynnydd enfawr yn yr alcohol a gaiff ei yfed yng Nghymru a gweddill y DU yn ystod Cwpan pêl-droed y Byd eleni. Mae'r bragwr Carlsberg, noddwr swyddogol tîm pêl-droed Lloegr, yn disgwyl i 21 miliwn o beintiau ychwanegol gael eu hyfed yn ystod y gystadleuaeth bedair wythnos.[5]

Mae'r papur hwn yn archwilio sut mae yfed alcohol ac adroddiadau am gam-drin domestig yn cynyddu yn ystod digwyddiadau chwaraeon. Mae'n gwneud argymhellion o ran codi ymwybyddiaeth a pharhau i weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Y bwriad yw cynnig gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaethau, y rhai sy'n llunio polisïau ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ymddiddori yn y maes.

Cam-drin domestig

Mae sawl diffiniad o gam-drin domestig; mae'r Swyddfa Gartref yn ei ddiffinio fel:

> *"...unrhyw achos o ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng oedolion sydd neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r un teulu, beth bynnag yw eu rhyw neu'u rhywioldeb."*

Yn anaml y mae cam-drin domestig yn digwydd unwaith yn unig, yn hytrach mae'n batrwm parhaus o ymddygiad y mae un partner, sydd fel arfer yn ddyn, yn ei ddefnyddio er mwyn dangos grym a rheolaeth dros bartner arall, sydd fel arfer yn fenyw. Mae ymchwil yn dangos ei fod yn effeithio ar un o bob pedair menyw yn ystod eu hoes, beth bynnag yw eu hoedran, dosbarth cymdeithasol, hil, anabledd neu ffordd o fyw.[6]

Brîff Alcohol Concern Cymru

Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol

Dim ond gêm yw hi? Cam-drin domestig, digwyddiadau chwaraeon ac alcohol

Brîff Alcohol Concern Cymru

Yn ei dogfen ymgynghori ddiweddar ar gam-drin domestig[7], mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) wedi cydnabod y cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau a bod angen i wasanaethau gydweithio.

Byddai'n anghywir dweud bod camddefnyddio alcohol yn *achosi* cam-drin domestig – mae'r sawl sy'n cam-drin yn gyfrifol am ei (gweithredu ei hun a gall achosion treisgar ddigwydd gydag alcohol neu hebddo. Felly hefyd, nid oes awgrym bod digwyddiadau chwaraeon o angenrheidrwydd yn achosi i bobl fynd yn fwy treisgar. Fodd bynnag, efallai fod y ffactorau hyn yn rhoi rhagor o gyfleoedd i'r sawl sy'n cam-drin fod yn dreisgar neu efallai eu bod yn cael eu defnyddio fel esgusodion dros drais.[8]

Digwyddiadau chwaraeon

Mae adrodd am gam-drin domestig yn cynyddu adeg digwyddiadau chwaraeon mawr. Yn 2009 cofnododd Heddlu De Cymru 66 achos o gam-drin domestig rhwng 5pm ddydd Sadwrn 7 Chwefror i 3pm ddydd Sul 8 Chwefror; y penwythnos canlynol, pan fu Cymru'n chwarae rygbi yn erbyn Lloegr yng Nghaerdydd, cododd y troseddau 79% i 118 achos.[9]

Credir bod mwy o yfed adeg digwyddiadau chwaraeon yn gwaethygu'r problemau. Er enghraifft, adroddodd Uned Reoli Bwrdeistref Abertawe Heddlu De Cymru fod yr achosion o gam-drin domestig a gofnodwyd ym mis Mehefin 2006 adeg Cwpan pêl-droed y Byd 37% yn uwch na'r niferoedd a gofnodwyd yn yr un mis yn 2005.[10] Nododd yr adroddiad fod lefelau yfed alcohol, ynghyd â natur llawn emosiwn y gemau, yn cynyddu mynychder yr achosion.[11]

Felly hefyd, canfu astudiaeth yng Nghaerdydd[12] a wnaed rhwng mis Mai 1995 a mis Ebrill 2002 o'r bobl oedd ag angen triniaeth feddygol frys am ymosodiad adeg gemau pêl-droed a rygbi rhyngwladol fod y nifer oedd wedi eu hanafu o achos ymosodiad (er nad cam-drin domestig oedd hyn o angenrheidrwydd) yn sylweddol uwch ar y penwythnosau hynny pan oedd gemau'n cael eu chwarae o'u cymharu â phenwythnosau pan nad oedd gemau. Daeth yr ymchwilwyr i'r casgliad fod y cynnydd, yn rhannol, o ganlyniad i yfed alcohol 'i ddathlu'.

Mentrau

Mae'r heddlu a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud ag atal achosion cam-drin domestig ac ymateb iddynt wedi gwneud cynnydd da o ran cyflwyno mentrau sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng digwyddiadau chwaraeon, yfed alcohol a cham-drin domestig. Er enghraifft, ymgymerodd heddlu'r DU ag Ymgyrch Trais Domestig yn ystod Cwpan pêl-droed y Byd 2006, tra mae Undeb Rygbi Cymru a heddluoedd Cymru wedi cynnal ymgyrch 'rhuban gwyn' yn ystod cystadlaethau blaenorol y Chwe Gwlad yn rhoi sylw arbennig i faterion yn ymwneud â cham-drin domestig.

Pris alcohol

Mae tystiolaeth o'r Comisiwn Cystadlu yn awgrymu i £36 miliwn o alcohol gael ei werthu islaw'r pris masnachol gan y pedwar adwerthwr bwyd mwyaf yn ystod Cwpan pêl-droed y Byd 2006;[13] mae'n debygol y bydd swm tebyg yn cael ei werthu yn ystod y gystadleuaeth sydd i ddod. Canfuwyd bod gan niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol gyswllt achosol â phris alcohol; mae o leiaf un astudiaeth wedi dod

Dim ond gêm yw hi? Cam-drin domestig, digwyddiadau chwaraeon ac alcohol

Brîff Alcohol Concern Cymru

i'r casgliad y byddai codi prisiau alcohol yn arwain at lai o lawer o anafiadau treisgar.[14] Mae tystiolaeth gref a chyson i awgrymu bod codi prisiau'n cael effaith arwyddocaol ar leihau'r galw am alcohol.[15] Felly mae Alcohol Concern yn galw am leiafswm pris o 50c yr uned o alcohol, yn unol ag argymhellion Prif Swyddog Meddygol Cymru. Byddai gosod lleiafswm pris yn arwain at leihad arwyddocaol o ran niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, tra bydd yn sicrhau bod alcohol yn dal yn fforddiadwy i yfwyr cymedrol.

Casgliadau ac argymhellion

- Mae ystadegau diweddar yn dangos yn eglur bod cynnydd mewn adrodd am gam-drin domestig o gwmpas yr adeg pan fydd digwyddiadau chwaraeon mawr yn digwydd, ac yn aml gall problemau ddwysáu o ganlyniad i ragor o yfed alcohol. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus: mae'r ystadegau'n dibynnu ar ddata'r heddlu nad yw efallai'n sôn am alcohol, a data iechyd nad yw efallai'n cynnwys a yw'r trais yn ddomestig ei natur. Mae'n bosib fod mwy o adrodd am achosion, o leiaf yn rhannol, o ganlyniad i ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth llwyddiannus sy'n annog menywod i adrodd am achosion ar yr adegau hyn neu oherwydd efallai fod digwyddiadau chwaraeon yn cynnig gwell cyfleoedd i fenywod adrodd am ddigwyddiadau, er enghraifft pan fydd eu partner yn mynychu'r digwyddiad neu'n gwylio'r digwyddiad mewn man arall, er enghraifft yn y dafarn. Mae angen ymchwil mwy trylwyr i archwilio'r gydberthynas rhwng alcohol, cam-drin domestig a digwyddiadau chwaraeon.
- Dylid annog ymgyrchoedd a mentrau gorfodi adeg digwyddiadau chwaraeon mawr sy'n codi ymwybyddiaeth o faterion cam-drin domestig, a dylai LICC gydlynu'r rhain. Gallai mentrau'r dyfodol hefyd gynnwys adegau eraill y mae astudiaethau'n awgrymu y gall achosion o gam-drin domestig godi, megis yn ystod cyfnod y Nadolig[16] a hafau poeth.[17]
- Dylai'r diwydiant diodydd osgoi gorfarchnata alcohol a'i werthu ar ddisgownt mawr yn ystod y Cwpan Byd sydd i ddod. Mae angen i gynhyrchwyr ac adwerthwyr diodydd ystyried yn ofalus oblygiadau posibl cynigion anghyfrifol sy'n annog goryfed. Dylai unrhyw gynnydd mewn gweithgareddau marchnata a gwerthu ar ddisgownt gydredeg â chynnydd mewn hyrwyddo negeseuon yfed yn gall, a ddylai fod ar gael i bob cwsmer yn y man gwerthu. Bydd lleiafswm pris am uned o alcohol yn sicrhau nad yw adwerthwyr yn gallu gwerthu alcohol islaw cost benodol, felly byddai gwerthu ar ddisgownt dwfn a chynigion anghyfrifol yn cael eu dileu.

Adnoddau defnyddiol:

Llinell gymorth cam-drin domestig Cymru: 0808 8010 800
Llinell gymorth cyffuriau ac alcohol Cymru: 0800 6335 588
Gwybodaeth am yfed yn gall: www.yfeddoethcymru.org.uk

Dim ond gêm yw hi? Cam-drin domestig, digwyddiadau chwaraeon ac alcohol

1. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Yr hawl i fod yn ddiogel*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
2. Datganiad i'r wasg gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, ar-lein, ar gael trwy: http://www.legalservices.gov.uk/aboutus/our_regional_network/north/North_press_releases_5616.asp [defnyddiwyd 18/03/10].
3. Galvani, S. (2004) *Responsible disinhibition: Alcohol, men and violence to women*, Addiction, Research and Theory, 12(4), tudalennau 357-371.
4. Brecklin, L.R. (2002) *The role of perpetrator alcohol use in the injury outcomes of intimate assaults*, Journal of Family Violence, 17(3), tudalennau 185-197.
5. ook, S. (2010) *Carlsberg reveals World Cup plans*, Morning Advertiser, ar-lein, ar gael trwy: http://www.morningadvertiser.co.uk/news.ma/article/85666?N=598325&Ne=598327&PagingData=Po_0~Ps_10~Psd_Asc [defnyddiwyd 11/03/10].
6. Cymorth i Ferched Cymru, ar-lein, ar gael trwy: www.welshwomensaid.co.uk/11373.file.dld [defnyddiwyd 12/03/10].
7. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Cynllun Gweithredu Strategol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn merched ac i ddiweddaru Strategaeth Cam-drin Domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
8. Braaf, R a Gilbert, R (2007) *Domestic violence incident peaks: Seasonal factors, calendar events and sporting matches, Australian Domestic and Family Violence* Clearinghouse, October 2007, Stakeholder Paper 2.
9. Alford, A. (2010) *Police highlight rise in domestic abuse at Six Nations time*, ar-lein, ar gael trwy: http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2010/02/03/police-highlightrise-in-domestic-abuse-at-six-nationstime-91466-25749243 [defnyddiwyd 12/03/10].
10. Op.cit. Braaf, R. a Gilbert, R. (2007).
11. ibid.
12. Sivarajasingham, V., Moore, S. and Shepherd, J.P. (2005) *Winning, losing and violence*, Injury Prevention, cyfrol 11, tudalennau 69-70.
13. Comisiwn Cystadlu (2007) *Pricing Practices Working Paper*, ar-lein, ar gael trwy: www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/grocery/pdf/working_paper_retail_competition.pdf [defnyddiwyd 16/03/10].
14. Matthews, K., Shepherd, J. a Sivarajasingham, V. (2006) *Violence-related injury and the price of beer in England and Wales*, Applied Economics, 38, tudalennau 661-670.
15. Meier, P. (2008) *The independent review of the effects of alcohol pricing and promotion*, Ysgol Iechyd ac Ymchwil Gysylltiedig, Prifysgol Sheffield, ar-lein, ar gael trwy: http://www.alcohollearningcentre.org.uk/Topics/Browse/Policy/?parent=4441&child=4656 [defnyddiwyd 30/03/10].
16. Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Gweinidog yn lansio'r ymgyrch Nadolig i daclo trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig*, ar-lein, ar gael trwy: http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/domesticabuse/news/helpline/?skip=1&lang=cy [defnyddiwyd 18/03/10].
17. Anderson, C. A. (2001) *Heat and violence*, Current Directions in Psychological Science, 10(1), tudalennau 33-38.

Brîff Alcohol Concern Cymru

Cyhoeddwyd gan Alcohol Concern,
ar ran Alcohol Concern Cymru, Sophia House,
28 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ

Ffôn: 029 2066 0248, Ffacs: 029 2066 0249

E-bost: acwales@alcoholconcern.org.uk

Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Hawlfraint: Alcohol Concern Mai 2010

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf (gan gynnwys llungopïo neu storio mewn unrhyw gyfrwng electronig), neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ddull heb ganiatâd y cyhoeddwyr a pherchenogion yr hawlfraint.

Mae Alcohol Concern yn elusen gofrestredig rhif 291705 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn Llundain rhif 1908221.

Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol